

AILDDYLUNIO'R LLWYBR CANSER Y PROSTAD

Samantha Holliday; Nyrs glinigol arbenigol arweiniolwro-oncoleg; yr Athro Howard Kynaston, Wrolegydd Ymgynghorol; Mr Owen Hughes, Wrolegydd Ymgynghorol; Mr Richard Coulthard, Wrolegydd Ymgynghorol; Ruth Jordan, Pennaeth Gwella Gwasanaethau yn Barhaus; Sharon Arkless, Nyrs glinigol arbenigol wro-oncoleg; Mr Luke Wheeler, Radiolegydd Ymgynghorol; Mr Dennis Cochlin, Radiolegydd Ymgynghorol; Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Y cyd-destun a'r problem


Mae cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio i adrannau Wroleg ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro sydd ag Antigen Penodol i'r Prostad wedi'i godi fel 'canser tybiedig brys' yn dilyn llwybr 62 diwrnod wedi'i amseru. Roedd cleifion yn torri'r targed yn aml, a arweiniodd at oedi o ran triniaeth a diagnosis cancer y prostad. Nod y prosiect oedd lleihau'r amser aros o'r atgyfeiriad i'r driniaeth i gleifion â chanser y prostad tybiedig brys, gan leihau'r potensial ar gyfer niwed y gellir ei osgoi.

Strategaeth ar gyfer newid

Datblygodd dîm amlddisgyblaeth lwybr newydd ar gyfer canser y prostad. I ddechrau, newidiwyd trefn y profion diagnostig fel bod modd i gleifion gael MRI cyn y biopsi TRUS. Bellach, mae apwyntiad cleifion allanol cyntaf y cleifion yn y clinig, ac maent yn gadael gyda dyddiadau a gytunwyd ar gyfer MRI, biopsi TRUS a'r apwyntiad cleifion allanol dilynol. Aildrefnodd yr adran radioleg eu gallu MRI er mwyn caniatáu rhestr diwrnod cyfan i nyrsys arbenigol wroleg. Gan mai'r MRI sy'n dod gyntaf, os bydd angen i'r biopsi TRUS dargedu rhan benodol o'r prostad, gellir gwneud hynny ar y cynnig cyntaf, yn hytrach na threfnu triniaeth arall. Ar yr hen lwybr, nid oedd modd gwneud yr MRI am 28 diwrnod ar ôl y biopsi TRUS gan fod y gwaedu ar ôl y biopsi yn effeithio ar y ddelwedd. Roedd newid y drefn yn golygu nad oes angen aros am 28 diwrnod mwyach. Hefyd, mae'r tîm wedi archwilio ac adolygu'r broses a'r canlyniadau ar gyfer cleifion a atgyfeiriwyd ar gyfer sgan esgyrn fel rhan o'r llwybr. Ar ôl trafod â'r tîm amlddisgyblaeth ehangach ac archwiliad sgan Caerdydd a'r Fro, cytunwyd y gellir hepgor y sganiau esgyrn o'r llwybr i gleifion sydd wedi derbyn sgan eisoes.


Mesur gwelliant

Roedd yr archwiliad a'r casglu data yn canolbwyntio ar ganolrif amser blaenorol a phresennol y claf o'r apwyntiad i'r driniaeth



Effeithiau'r newidiadau

Mae'r amseroedd aros o'r atgyfeiriad i'r driniaeth ar gyfer canser prostad tybiedig brys wedi gostwng yn sgil y llwybr newydd. Gyda'r oedi 28 diwrnod rhwng y TRUS a'r MRI ar y llwybr blaenorol, roedd cleifion yn aros am **90 diwrnod** ar gyfartaledd (canolrif); gydag ystod rhwng **52-186 diwrnod**. Mae cleifion sy'n dilyn y llwybr newydd yn aros am gyfartaledd (canolrif) o **61 diwrnod**; gydag ystod rhwng **25-82**



Arbedion costau posibl yn sgil y llwybr newydd

Triniaeth	Nifer bras y triniaethau a arbedwyd bob blwyddyn	Cost fesul triniaeth	Arbedion costau posibl bob blwyddyn
Biopsi TRUS	70	£349.79	£24,485.30
Sgan esgyrn	66	£513	£33,858

Gwersi a ddsygwyd

1. Cyn cyflwyno, canolbwyntiodd y tîm ar y prosesau yr oedd angen eu haildrefnu, sef y TRUS a'r MRI. Trwy ganolbwyntio ar y cam hwn yn y llwybr, ni ragwelwyd yr heriau gyda'r clinigau cleifion allanol ar ddiwedd y llwybr. Byddai dadansoddi'r problemau posibl mewn ffordd fwy strwythuredig wedi gallu osgoi hyn.
2. Roedd gweithio gyda'r tîm amlddisgyblaethol cyfan ac ar draws adrannau wedi galluogi gwneud newidiadau i'r llwybr na ystyriwyd cyn hyn.
3. Roedd rhannu data a siartiau ar gamau gwahanol y llwybr mewn ffordd dryloyw wedi helpu i leihau gwrthwynebiad i'r newidiadau.